***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2070 (Cy. 142)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Grantiau Tai (Dibenion Ychwanegol) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *24 Mai 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Gorffennaf 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 12(1)(i), 17(1)(j) a 27(1)(j) a 146(2) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(**1**), sydd bellach yn arferadwy mewn perthynas â Chymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**):

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Grantiau Tai (Dibenion Ychwanegol) (Cymru) 2001 a daw i rym ar 1 Gorffennaf 2001.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Ni fydd i'r Gorchymyn hwn unrhyw effaith mewn perthynas â chais am grant a wnaed cyn 1 Gorffennaf 2001.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

### Grantiau adnewyddu

**3.** At ddibenion adran 12 o'r Ddeddf (grantiau adnewyddu: dibenion y gall grantiau gael eu rhoi ar eu cyfer), diben ychwanegol a bennir yw - gwella effeithlonrwydd ynni.

### Grantiau rhannau cyffredin

**4.** At ddibenion adran 17 o'r Ddeddf (grantiau rhannau cyffredin: dibenion y gall grantiau gael eu rhoi ar eu cyfer), diben ychwanegol a bennir yw - gwella effeithlonrwydd ynni.

(**1**) 1996 p.53
(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672)

**Grantiau tai mewn aml-feddiannaeth**

**5.** At ddibenion adran 27 o'r Ddeddf (grantiau tai mewn aml-feddiannaeth: dibenion y gall grantiau gael eu rhoi ar eu cyfer), diben ychwanegol a bennir yw - gwella effeithlonrwydd ynni.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D.Elis Thomas*

24 Mai 2001

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn.)*

Mae adrannau 12, 17 a 27 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 ("Deddf 1996") yn nodi'r dibenion y gall grantiau ar gyfer adnewyddu tai yn y sector preifat gael eu rhoi ar eu cyfer. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵ er o dan adrannau 12(1)(i), 17(1)(j) a 27(1)(j) i bennu dibenion eraill drwy orchymyn. Erbyn hyn, mae'r pŵer hwnnw'n arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu diben ychwanegol y gall grant gael ei roi ar ei gyfer o dan adrannau 12 (grantiau adnewyddu), 17 (grantiau rhannau cyffredin) a 27 (grantiau ar gyfer tai mewn aml-feddiannaeth) o Ddeddf 1996. Gwella effeithlonrwydd ynni yw'r diben hwnnw ym mhob achos.